# Athro/Athrawes Mathemateg

Contract llawn-amser, parhaol

Yn dechrau 1 Medi 2025

## Pecyn Recriwtio



## Cyflwyniad gan y Prifathro

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Rydym yn falch iawn o'n hysgol gynhwysol ac uchelgeisiol, ac mae gennym ddisgwyliadau uchel tu hwnt ar gyfer pob un o'n myfyrwyr. Rydym yn ymfalchïo yn eu galluogi i dyfu ac i ffynnu. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'n myfyrwyr wneud dau beth syml – gweithio'n galed a bod yn garedig. Mae ein myfyrwyr a'n staff yn ffynnu mewn cymuned lle mae cysondeb a'n harferion ynghyd ag adnabod pob myfyriwr yn dda a'u cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae gennym fudd adeilad ysgol gwych, sydd wedi ennill gwobrau, a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar dan raglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'n gyfleuster modern gwych sydd ag addysg yn greiddiol iddo. Mewn lleoliad yng nghanol Trefynwy, rydym yn gwasanaethu ein cymuned leol yn ogystal ag ardaloedd cyfagos yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae gennym tua 1,700 o fyfyrwyr a 200 o staff, ac mae mwy o alw nag o leoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Rydym yn hollol benderfynol i ddarparu safon rhagorol o addysg ar gyfer pob plentyn sy'n dod i'n hysgol, fel eu bod yn cael cyfle i arwain bywydau hapus a llwyddiannus. Mae ein hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru wedi ei seilio ar bwysigrwydd pynciau ac ar egwyddor gwybodaeth rymus. Mae ein gwaith ar hyn yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn i rannu ein harfer yn ehangach. Mae ein haddysgeg wedi ei seilio ar dystiolaeth ymchwil ar ddysgu ac ar sut i gynyddu cynnydd myfyrwyr i'r eithaf.

Rydym yn hollol gyfun ac yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu. Ar hyn o bryd mae 14% o boblogaeth yr ysgol ar y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gennym hefyd Ganolfan Adnoddau Arbenigol integredig, sydd hefyd yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn am ei darpariaeth eithriadol o gryf. Daw myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a'r cyfartaledd treigl ar gyfer prydau ysgol am ddim yw 13.8%.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu nodweddion a gwerthoedd personol yn adlewyrchu'r rhai yn y fanyleb person, ac y mae eu profiadau hefyd yn eu rhoi mewn sefyllfa glir i gyflawni'r disgrifiad swydd. Caiff rhaglen gynefino lawn a dysgu proffesiynol ystyrlon eu cynnig i'r holl staff.

Byddwch yn ein cael yn grŵp o gydweithwyr cefnogol sy'n gweithio i ddarparu safon eithriadol o addysg ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn ein gofal. Ymfalchïwn yn fawr yn yr hyn a wnawn, a rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol iawn am yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich cais, pe dymunech ymgeisio.

Dymuniadau gorau

**Hugo Hutchison**
**Pennaeth**



## Disgrifiad Swydd

**1 Teitl Swydd**: Athro/Athrawes Mathemateg

**2 Graddfa Gyflog**: Graddfa Gyflog Athrawon

3 **Perthnasoedd**

3.1 Mae deiliad y swydd yn gyfrifol i Bennaeth yr Ysgol drwy Arweinydd y Gyfadran Mathemateg am ddyletswyddau addysgu'r pwnc ac i Benaethiaid Blwyddyn am ddyletswyddau dosbarth.

3.2 Mae deiliad y swydd yn gweithio ar lefel broffesiynol gyda phob cydweithiwr (yn allanol ac yn fewnol) fel sy'n briodol i sefydlu a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol.

3.3 Mae deiliad y swydd yn cydlynu gyda rhieni, gofalwyr a myfyrwyr fel sy'n briodol.

**4 Diben y Swydd**

Cyfrannu at addysgu a gwaith arall y Gyfadran, fel y'i diffinnir yn nogfen Tâl ac Amodau (Cymru) Athrawon Ysgol. Fel Athro/Athrawes Dosbarth, ymgymryd â dyletswyddau i gefnogi cynnydd myfyrwyr yn y Dosbarth.

**5. Cyfrifoldebau**

5.1 Cyfrannu at addysgu Mathemateg ar bob lefel, yn cynnwys CA4 a CA5, a chymryd rhan wrth ddatblygu cynlluniau gwaith, deunyddiau a meysydd llafur yr Adran Mathemateg, gan fynychu cyfarfodydd o'r Adran a'r Gyfadran fel bo angen.

5.2 Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol eich hun, gan ddefnyddio Cofnod Perfformiad a Dalen Ddatblygu Ysgol Gyfun Trefynwy yn y Polisi Rheoli Perfformiad a'r polisi Datblygu Proffesiynol i lywio a chefnogi cynnydd gyda'r nod o gyrraedd safonau proffesiynol.

5.3 Rheoli a goruchwylio defnydd a storio llyfrau, deunyddiau papur a deunyddiau addysgu eraill gan sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw reoliadau Iechyd a Diogelwch

5.4 Cyflawni dyletswyddau Athro/Athrawes Dosbarth yng nghyswllt myfyrwyr i gynnwys:

- datblygu perthynas ddysgu gadarnhaol
- sefydlu rapport gyda myfyrwyr i ddatblygu eu potensial cymdeithasol ac academaidd a bod yn brif ffynhonnell cyfeirio ar gyfer eu problemau
- marcio cofrestri dosbarth, gan sicrhau y rhoddir cyfrif am absenoldeb a hwyrni a chymryd camau gweithredu priodol pan fo angen
- paratoi adroddiadau, proffiliau a thystlythyrau ar fyfyrwyr fel sydd angen
- monitro gwaith cartref myfyrwyr, addysgu cyfnodau dosbarth, hebrwng y dosbarth i wasanaethau ysgol a mynychu cyfarfodydd tiwtor a elwir gan y penaethiaid Blwyddyn.

5.5 Gweithio wrth ochr y Penaethiaid Blwyddyn i fonitro cynnydd myfyrwyr a gosod targedau, a sicrhau y caiff anghenion myfyrwyr eu diwallu.

5.6 Goruchwylio dyletswyddau myfyrwyr fel y manylir gan y Prifathro.

## Disgrifiad Swydd

5.7 Sicrhau fod myfyrwyr yn cael y cymorth maent ei angen gan yr ysgol ac asiantaethau allanol.

5.8 Cynnal a chydymffurfio gyda pholisïau statudol y Cyngor a'r Ysgol yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch.

5.9 Dilyn polisïau a gweithdrefnau yr ysgol a'r awdurdod lleol ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant ym mhob gwaith gyda phlant a theuluoedd.

5.10 Gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud â rheoli ymddygiad, gwisg ysgol, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu unigolyn priodol am bob mater o gonsyrn.

5.11 Cynnal a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol.

5.12 Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad fel sydd angen.

**6 Datblygiad Proffesiynol**

Mae'r ysgol yn ymroddedig i gefnogi pawb mewn datblygu eu hymarfer i gyflawni'r deilliannau gorau oll ar gyfer pob myfyriwr. Mae ein polisi ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn amlinellu'r ddarpariaeth ac ymarfer ar gyfer y swydd hon.

**7 Rheoli Perfformiad**

Mae ein polisi ac ymarfer Rheoli Perfformiad yn ein cefnogi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol. Caiff rheoli perfformiad unigol ei integreiddio yn systemau a blaenoriaethau'r ysgol yn ehangach.

**8** Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn ddarostyngedig i'r rhai a fanylir yn y Datganiad ac Amodau Cyflogaeth a bydd yn cyfrif fel amser a gyfarwyddir fel y manylir mewn datganiad o'r fath ac fel y'i diffinnir gan y Prifathro.

**9** Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn diffinio yn fanwl holl ddyletswyddau/cyfrifoldebau y swydd. Caiff y disgrifiad swydd ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a gall gael ei addasu neu ei ddiwygio ar ôl ymgynghoriad a chytundeb gyda deiliad y swydd.

## Manyleb Personol

| | Gofyniad | Hanfodol neu Ddymunol | Sut y Profir (Rh) Defnyddir i Lunio'r Rhestr Fer |
|---|---|---|---|
| **Addysg/Cymhwyster** | | | |
| 1.1 | Gradd mewn Mathemateg neu ddisgyblaeth gysylltiedig | H | Ffurflen Gais |
| 1.2 | Cymhwyster Addysgu | H | Ffurflen Gais |
| **Profiad** | | | |
| 2.1 | Mae croeso cyfartal i ymarferwyr newydd gymhwyso neu brofiadol i wneud cais | | |
| **Doniau a Sgiliau** | | | |
| 3.1 | Gallu i gynnig Mathemateg lefel TGAU | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.2 | Gallu i gynnig Mathemateg Lefel A | D | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.3 | Gallu i ennyn brwdfrydedd a chymell myfyrwyr | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Gwers Micro |
| 3.4 | Cynnal safon uchel mewn perthynas athro/athrawes-myfyriwr yn yr ystafell ddosbarth | H | Cyfweliad / Gwers Micro / Tystlythyr |
| 3.5 | Gallu i weithio fel tiwtor dosbarth effeithlon | H | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| 3.6 | Medru darparu cyfleoedd allgyrsiol i fyfyrwyr | D | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Nodweddion Personol** | | | |
| 4.1 | Bod yn gyfathrebydd effeithlon gyda'r sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen i weithio'n agos gyda chydweithwyr a myfyrwyr | E | Cyfweliad |
| 4.2 | Gallu cyfrannu'n frwdfrydig at weledigaeth ac amcanion yr ysgol | H | Cyfweliad |
| 4.3 | Bod yn aelod effeithiol o dîm a medru cymryd yr awenau | H | Cyfweliad |
| 4.4 | Bod yn drefnus a medru gweithredu polisïau'r ysgol yn effeithiol | H | Cyfweliad |

Monmouth Comprehensive School | Ysgol Gyfun Trefynwy

## Manyleb Personol

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.5 | Bod â chymhelliant uchel | H | Cyfweliad |
| 4.6 | Bod ag agwedd hyblyg at waith a phobl | H | Cyfweliad |
| 4.7 | Ymroddiad i ddatblygiad personol pellach. | H | Cyfweliad |
| **Diogelu** | | | |
| 5.1 | Ymroddiad i les disgyblion a diogelu ac amddiffyn plant | H | Cyfweliad |
| 5.2 | Tystlythyrau cadarnhaol | H | Ar ôl llunio’r rhestr fer |
| 5.3 | DBS Manwl | H | Yn dilyn cyfweliad |

## Gwybodaeth am y Gyfadran - Mathemateg

Ein gweledigaeth yw rhoi profiad gwerth chweil a difyr mewn Mathemateg i bob myfyriwr tra'n eu paratoi i ddod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus a rhifog a all ddelio gyda phob agwedd o Fathemateg a Rhifedd yn yr yrfa a ddewisant a'u bywyd fel oedolion. Cyflawnir hyn drwy fod ag ymroddiad a gaiff ei rannu i addysgu a dysgu rhagorol a sicrhau fod cwricwlwm wedi ei gynllunio'n dda gydag amrywiaeth ddiddorol o wersi i gymell ac ennyn diddordeb pob myfyriwr. Gall myfyrwyr ddatblygu eu sgiliau dadansoddi, rhesymu, creadigrwydd, cydweithio a hunan-werthuso eu hunain fel y gallant ateb y problemau mathemategol a wynebant yn annibynnol, ystyrlon a brwdfrydig. Mae'n rhaid i bob disgybl fod â'r disgwyliadau uchaf ohonynt eu hunain a'i gilydd a drwy gydweithio gallwn gyflawni'r llwyddiant mwyaf.

Mae ein disgyblion Blwyddyn 7 yn dechrau mewn dosbarthiadau gallu cymysg sy'n ein galluogi i ddefnyddio dull Meistrolaeth; mae gennym ddisgwyliad y gall ac y bydd pob disgybl yn cyflawni. Caiff myfyrwyr eu cefnogi i symud ymlaen drwy gynnwys y cwricwlwm ar yr un raddfa a gwahaniaethwn waith i'w cefnogi wrth ennill gwybodaeth ddofn. Fel gweithwyr proffesiynol rydym yn mwynhau rhannu syniadau a strategaethau a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd. Pan fydd yr amser yn gywir dechreuwn grwpio myfyrwyr i ddosbarthiadau Uwch, Canolraddol a Cymorth lle gall myfyrwyr ganolbwyntio ar y pynciau ar lefel sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cyson.

Mae gennym ystod o raglenni astudiaeth tu hwnt i CA3. Ar gyfer myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol rydym yn cynnal rhaglen Lefel Mynediad drwy CA4. Ar hyn o bryd mae mwyafrif ein myfyrwyr yn eistedd dwy TGAU mewn Mathemateg, TGAU Rhifedd ym Mlwyddyn 10 a TGAU Mathemateg ym Mlwyddyn 11. Mae ein myfyrwyr mwy galluog hefyd yn cwblhau'r cymhwyster Mathemateg Ychwanegol ym Mlwyddyn 11 fel cwrs pontio i Mathemateg Lefel A. Mae nifer fawr o fyfyrwyr yn dewis parhau eu Mathemateg i'r Chweched Dosbarth lle rydym yn cynnal ein rhaglenni Lefel A Mathemateg a Mathemateg Pellach llwyddiannus iawn. Mae'r deilliannau ar gyfer myfyrwyr yn rhagorol gyda dwy o'n carfannau diweddar yn ennill y canlyniadau uchaf ar record. Mae ein cyrsiau yn gyson yn sicrhau'r graddau uchaf yn ALPS, gan ddangos deilliannau tebyg i'r canolfannau uchaf oll yn y wlad.





## Gwybodaeth am y Gyfadran - Mathemateg

Rydym wedi cynnal clwb gwyddbwyll poblogaidd yn yr ysgol am flynyddoedd lawer. Mae myfyrwyr ar draws pob grŵp oedran yn mwynhau cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ogystal ag athrawon. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n mwynhau her, rydym hefyd yn cynnal heriau mathemateg UKMT blynyddol. Rydym hefyd yn cynnal grwpiau cymorth TGAU a Lefel A ar gyfer myfyrwyr ar ôl yr ysgol.

Mae gennym ymroddiad cryf i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer staff presennol. Fel cyfadran cynigiwn amgylchedd deinamig, cefnogol a chyfeillgar I'n holl staff ac mae'n lleoliad delfrydol ar gyfer y cydweithwyr hynny yn eu blwyddyn gyntaf o addysgu neu i athrawon profiadol sy'n edrych am her newydd. Mae gan y gyfadran ymdeimlad gwirioneddol o ble mae yn mynd ac edrychwn ymlaen at symud ymlaen gyda datblygu'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Caiff yr adran ei gyrru gan y tîm, gyda llawer o gydweithio, lle gall pob aelod wneud cyfraniad real a sylweddol iawn i fywydau myfyrwyr a chydweithwyr fel ei gilydd.

Mae'r Gyfadran Mathemateg yn adran fawr a bywiog gyda 13 o athrawon. Rydym yn ffodus iawn yn ein hamgylchedd ysgol 21ain Ganrif gan fod gan y gyfadran Mathemateg 10 i ystafelloedd dosbarth a 2 ystafell ddosbarth ymyriad llai pob un gyda thaflunydd rhyngweithiol sy'n cyfoethogi ein gwersi ac yn cefnogi dysgu rhyngweithiol. Mae gennym hefyd ardal hyb fawr gyda grisiau addysgu lle gallwn gynnull i gyfuno dosbarthiadau neu ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau mwy ymarferol seiliedig ar grŵp.



## Y Broses Recriwtio

### 1. Ffurflenni cais

Gellir lawrlwytho ffurflenni cais drwy www.eteach.com – nid ydym yn derbyn CVs.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais ar bapur at: Mrs Laura Claypole, Ysgol Gyfun Trefynwy, Hen Heol Dixton, Trefynwy NP25 3YT.

Gellir anfon ceisiadau drwy e-bost at: mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk

**Dyddiad Cau:** **Dydd Llun 7 Ebrill am 12 canol-dydd**

### 2. Proses Gyfweld

**Dyddiad Cyfweliadau:** **Dydd Iau 10 Ebrill**

### 3. Gwybodaeth Ychwanegol

Cysylltwch â: Mrs Laura Claypole mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk os hoffech fwy o wybodaeth.

### 4. Diogelu

Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Ysgol a'r Cyngor. Anelwn gefnogi plant ac oedolion mewn risg i fod mor ddiogel ag y gallant fod ac i gyflawni eu potensial. Rydych yn gyfrifol am chwarae eich rhan yn llesiant, diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion mewn risg. Bydd gennych gyfrifoldeb am gymryd rhan mewn hyfforddiant i'r lefel priodol o ddiogelu a dyletswydd i gyflawni eich cyfrifoldebau personol am ddiogelu.

Cafodd penodiad i'r swydd hon ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n amodol ar Wiriad Datgeliad Estynedig. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwybod am chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o gonsyrn.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg, a chânt eu trin yn gyfartal.

